# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar y 10fed o Fai 2016
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Cyfarfod Blynyddol:**

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Mai 2015 gan y Cadeirydd.

**Cyfarfod Misol:**

**Presennol:** Cynghorwyr Wyn Jones (Cadeirydd), Ruby Williams, Garym Roberts, Jocelyn Andrew, Gerallt Davies a Wyn Evans.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc a'r Cynghorwr Sirol John Lumley.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Eiddwen Merritt, Carys Morgan, a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Ebrill a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:** Dim.

**Materion Cynllunio:**

Rhif Cais. A160371

6 Penlon, Llwyncelyn, Aberaeron.

Newid arfaethedig i fynediad cerbydau a mynediad garej.

Dim gwrthwynebiad.

**Ystyried ceisiadau am nawdd ariannol:**

| | |
|---|---|
| Ras yr Iaith | £50.00 |
| Pwll Nofio Aberaeron | £200.00 |

**Talu anfonebau:**

| | |
|---|---|
| Yswiriant AON | £416.69 |

**Cyngor Sir Ceredigion:**

i. Bwriad i ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Mannau Parcio oddi ar y Stryd)
Derbyniwyd y llythyr fel gwybodaeth.

ii. Ymgynghori ar amryw o newidiadau arfaethedig i'r terfynau cyflymder ar ffyrdd sirol yng Ngheredigion.
Nodwyd y newidiadau.
**Radio Beca:**
Darllenwyd lythyr yn sôn am ddigwyddiad o Ysgol Ddarlledu ar fore Sadwrn 21 Mai 2016 yng Ngwesty Tyglyn.

**Praesept**
Derbyniwyd Praesept o £5500 am y flwyddyn 2016/17 ar y 29ain o Ebrill 2016.
**U. F. A.**
Materion a godwyd gan y Cynghorwyr fel a ganlyn:

i. Soniodd y Cynghorydd Ruby Williams fod y tyllau ar ffordd Rhiwgoch heb ei llanw felly penderfynwyd i'r clerc gysylltu a'r Adran Briffyrdd eto.
ii. Dywedodd y Cynghorydd Jocelyn Andrew fod arwydd 'Derwen Gam' wedi diflannu o'r ffordd rhwng Derwen Gam a sgwar Penyryrfa, gofynwyd i'r clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.
iii. Nododd y Cynghorydd Garym Roberts bod angen arwydd yn dweud 'dead end' ar y ffordd i Ffynnon Las, Ffos-y-ffin, gofynwyd i'r wneud ymholiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw'r 14eg o Fehefin.